

# Taith Gylchol y Waun 2




## Manylion y llwybr

Taith gerdded y tu allan i'r ystad o amgylch Castell y Waun, gydag opsiwn i ymweld â'r castell o ddarn o Lwybr Clawdd Offa, gan orffen gyda thraphont a thraphont ddŵr go arbennig.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 6.6 milltir / 10.6 km (gydag estyniad o 1 milltir / 1.6 km) |
| **Man cychwyn:** | Gorsaf drenau'r Waun |
| **Cyfeirnod grid y man cychwyn:** | SJ 28464 37801 |
| **Disgrifiad what3words y man cychwyn:** | odrif.crefftwr.ariannol |

## Cychwyn

Dechreuwch yng ngorsaf drenau'r Waun drwy groesi'r bont ffordd dros y rheilffordd yn dilyn arwydd i'r castell. Ewch heibio i'r ffordd fynediad i Ystad Ddiwydiannol Canal Wood ac yna trowch i'r dde drwy giât fechan i mewn i goetir. (Mae'r ffordd yn parhau yn syth tuag at borth addurnol i Gastell y Waun.) Yn syth ar ôl dod i mewn i'r coetir, trowch i'r chwith yn dilyn yr arwydd am Gastell y Waun ac edrychwch dros geg twnnel ar Gamlas Llangollen. Trowch i'r dde ar hyd llwybr coetir a sylwch fod y llwybr yn hollti ac yn ailymuno sawl gwaith. Mae'n well cadw at y llwybr sydd bellaf i'r chwith er mwyn gweld gât mochyn yn arwain i mewn i gae, lle mae llwybr yn arwain yn syth at ffordd.

Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd nes iddi ddringo'n serth. Trowch i'r dde fel y dangosir gan arwyddbost llwybr cyhoeddus, i fyny llethr i groesi camfa risiau. Cadwch i ochr dde cae, croeswch gamfa risiau, ac ewch yn syth ar draws cae arall. Croeswch gamfa risiau i fynd yn ôl ar y ffordd, yna croeswch gamfa risiau ar yr ochr arall. Cerddwch ychydig i'r chwith ar draws y cae nesaf, gan anelu at gamfa risiau mewn ffens. Croeswch hi ac ewch i gornel bellaf y cae i ddod o hyd i drac wedi'i wneud o slabiau concrit. Trowch i'r dde a'i ddilyn, gan fynd drwy giât. Cerddwch yn syth ymlaen ar hyd hen ffordd gul gyda gwrychoedd o bobtu iddi. Mae'r wyneb tarmac yn

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Taith Gylchol y Waun 2



© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100019741

torri'n gyflym ac yn cael ei orchuddio â glaswellt, tra bod gwrychoedd wrth ei ymyl yn ei wneud mor gul â llwybr. Ar un adeg mae'r hen ffordd yn croesi Clawdd Offa, ond nid yw'r gwrthglawdd hynafol yn hawdd i'w weld.

Ymunwch â ffordd a throwch i'r dde, yna bron yn syth i'r chwith wrth gyffordd. Cerddwch i fyny'r ffordd, yna edrych yn ôl ar gae cyfagos i weld Clawdd Offa yn gliriach, fel arglawdd amlwg yn cynnal ychydig o goed. Parhewch i gerdded i fyny'r ffordd a bydd giât mochyn i'w gweld ar y dde, ynghyd ag arwyddbost Llwybr Clawdd Offa a'r logos mes sy'n nodi'r llwybr. Peidiwch â mynd drwy'r giât, ond arhoswch ar y ffordd. Yn ddiweddarach, mae bwrdd mapiau ar gyfer Castell y Waun ar y chwith, ger rhai bythynnod, ac yn y fan hon mae'n werth dargyfeirio tuag ato, gan ddychwelyd i'r pwynt hwn yn ddiweddarach.

Ar gyfer y dargyfeiriad – ewch drwy giât mochyn a dilynwch saeth goch, sy'n dangos llwybr glaswelltog sy'n cadw i'r dde o gaeau, gan fynd drwy gatiau o un cae i'r llall. Yn ddiweddarach, mae'r llwybr yn cadw i'r dde o faes parcio i gyrraedd nifer o adeiladau. Mae'r rhain yn cynnwys canolfan ymwelwyr a swyddfa docynnau ar gyfer Castell y Waun, yn ogystal â lle sy'n gwerthu bwyd a diodydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser ychwanegol os byddwch yn ymweld â Chastell y Waun, a adeiladwyd yn 1310 ac sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. O 1595, bu'n gartref i'r teulu Myddleton am bedair canrif. Dilynwch eich camau yn ôl drwy'r caeau i barhau.

Mae arwyddbyst Llwybr Clawdd Offa yn pwyntio rownd cornel ar y ffordd, yna i'r chwith trwy giât mochyn i mewn i gae. Cerddwch yn syth ymlaen ar hyd trac sy'n mynd heibio coeden dderw fawr ac yn dod i ben yn fuan, yna dringwch drwy'r cae, gan fynd trwy giât mochyn mewn ffens. Daliwch i godi'n raddol, heb gymryd unrhyw sylw o saeth marciwr oren yn pwyntio i'r chwith am Gastell y Waun. Yn lle hynny, daliwch ati i gerdded ymlaen, drwy giât mochyn arall, yna ewch i lawr drwy gae ar hyd y llwybr mwyaf serth posibl. Ewch drwy giât mochyn arall a throwch i'r chwith yn dilyn arwydd i lawr trac caregog i goetir. Ewch heibio i adeiladau Crogen Wladys a chadwch i'r chwith wrth gyffordd yn Nhŷ Bickly. Mae'r ffordd yn codi'n raddol ychydig, yna cadwch i'r dde wrth gyffordd arall a disgyn i ffordd y B4500 yn ddwfn yn y dyffryn.

Croeswch y ffordd i fynd rhwng adeiladau Melin y Castell, yna croeswch bont dros Afon Ceiriog, lle mae plac yn coffáu Brwydr Crogen. (Digwyddodd hyn yn 1165 pan anfonodd Harri II lu amlwladol trwy goedwigoedd gwyllt trwchus yn y fan hon, gyda'r bwriad o 'ddifodi'r hil Gymreig yn llwyr'. Roedd anafiadau enfawr ar y ddwy ochr, ond yn y pen draw gorfodwyd lluoedd y brenin i dynnu'n ôl.) Wrth ddringo ffordd fer a serth, mae man heb ei farcio lle mae'r ffin yn cael ei chroesi rhwng Cymru (Clwyd) a Lloegr (Swydd Amwythig). Pan gyrhaeddir cyffordd, mae Llwybr Clawdd Offa yn dringo'n syth i fyny rhes o risiau, ond mae ein llwybr yn ôl i'r Waun yn troi i'r chwith yn lle hynny, gan ddilyn ffordd a ddefnyddir gan Lwybr Dyffryn Ceiriog a Llwybr Swydd Amwythig. Rydych

yn mynd heibio cyfres o hen odynau calch, ac yna ychydig o dai ym Mron-y-garth. Pan ddaw'r ffordd i lawr, trowch i'r chwith drwy borth mewn wal i ddilyn llwybr i lawr rhes o risiau i Pentre Wood, sy'n eiddo i Coed Cadw (The Woodland Trust).

Mae'r llwybr yn amlwg drwy gydol ei ddisgyniad, gydag un darn mwdlyd wedi'i orchuddio gan lwybr pren. Croeswch gamfa risiau wrth ymyl giât fawr i adael y goedwig a pharhau drwy gaeau ar hyd Afon Ceiriog. Mae'r llwybr glan yr afon yn troi'n drac, sydd yn ei dro yn arwain at giât fawr ger rhai tai ym Mhont-faen. Trowch i'r chwith i groesi pont gul o gerrig o Loegr yn ôl i Gymru, yna trowch i'r dde drwy giât mochyn. Unwaith eto, cerddwch ar hyd Afon Ceiriog trwy gae, gan ddynesu at ddwy nodwedd ryfeddol. Yn gyntaf, mae traphont reilffordd uchel gyda deg bwa, a agorwyd yn 1848, ac yna traphont gamlas fyrrach ond yr un mor drawiadol, eto gyda deg bwa, a agorwyd yn 1801. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio'n agosach, ond am y tro y cyfan sydd angen ei wneud yw cerdded oddi tanynt a pharhau ar hyd glan yr afon nes cael eich gorfodi i fyny at ffordd brysur y B5070.

Croeswch y ffordd a dechreuwch fynd i lawr ffordd fynediad ar yr ochr arall, ond trowch yn syth i lwybr ar y chwith. Mae'r llwybr yn croesi hen ras felin wedi'i thyfu'n wyllt ac a fu unwaith yn gwasanaethu Melin y Waun. Dilynwch y llwybr i fyny'r allt ac yn y diwedd mae'n ymuno â ffordd y B5070 yn agos at gyffordd ar gyrion y Waun. Y bwriad yw croesi'r ffordd brysur a throi i'r chwith ar hyd Ffordd y Castell, ond os yw'r traffig yn gwneud hyn yn anodd, cerddwch i mewn i'r Waun a defnyddio croesfan i gerddwyr cyn dychwelyd i ddilyn Ffordd y Castell. Mae'r ffordd yn arwain at olygfan sy'n edrych dros y traphontydd camlas a rheilffordd. (I orffen y daith gerdded yn gyflym, gan osgoi Twnnel y Waun, trowch i'r dde ar hyd Ffordd yr Orsaf i ddychwelyd i orsaf drenau'r Waun.)

Dilynwch lwybr i lawr trwy ddarn o goetir i gyrraedd llwybr halio Camlas Llangollen. Mae croeso i chi gerdded ar draws y draphont ddŵr, o Gymru i Loegr ac yn ôl eto, ond i orffen y daith hon, dylech ddilyn y llwybr halio i Dwnnel y Waun, sy'n 770 troedfedd (220m) o hyd. Yn lleol, mae'n cael ei adnabod fel 'The Darkie' ac, yn amlwg, mae angen tortsh, ond mae'r llwybr mewn cyflwr da ac mae ffens rhyngddo a'r gamlas. Sylwch, os daw cwch yn pwffian drwodd, gallai'r mygdarth diesel fod yn ormesol, ond mae'r allanfa bob amser yn y golwg o'ch blaen. Ar ôl dod allan o'r twnnel, parhewch ar hyd y llwybr halio ychydig ac yna dyblu'n ôl yn sydyn i'r dde i ddringo uwchben y gamlas. Pan gyrhaeddir ffordd, trowch i'r chwith i orffen yn ôl yng ngorsaf drenau'r Waun.

**Parcio:** Parcio cyfyngedig yng ngorsaf drenau'r Waun, neu defnyddiwch faes parcio ger Pwll y Waun yng nghanol y Waun.
**Bysiau:** Mae bysiau TrawsCymru yn gwasanaethu'r Waun o Wrecsam, y Trallwng a Machynlleth bob dydd, ac eithrio dydd Sul. Mae bysiau lleol dyddiol yn gwasanaethu'r Waun o Wrecsam a Chroesoswallt.
**Trenau:** Mae trenau dyddiol yn gwasanaethu'r Waun o Gaer ac Amwythig, yn ogystal â gwasanaethau pellter hir o Gaerdydd a Chaergybi.

